OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 6 (Cy. 4)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor").

Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â nifer o swyddogaethau'r Cyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 er mwyn mewnosod Rhan 3A newydd. Mae'r Rhan 3A newydd yn darparu na chaniateir i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn y Rhan 3A honno oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf penodedig. Mae'r meini prawf penodedig yn cynnwys bod yn gofrestredig â'r Cyngor yn y gofrestr a gynhelir ganddo yn unol ag adran 9 o Ddeddf 2014 (rheoliad 2(a) ac (c) o'r Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 2(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 i egluro bod rhaid i athrawon cymwysedig fod wedi eu cofrestru yn y categori cofrestru athro neu athrawes ysgol er mwyn iddynt allu cyflawni'r gwaith a bennir yn rheoliad 17 o'r Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 ymhellach er mwyn mewnosod Rhan 4A newydd. Mae'r Rhan 4A newydd yn darparu na chaiff gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn adran 16(2) o Ddeddf 2014 oni bai bod y person hwnnw wedi ei gofrestru â'r Cyngor yn y gofrestr a gynhelir ganddo yn unol ag adran 9 o Ddeddf 2014 (rheoliad 2(d) o'r Rheoliadau hyn).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 6 (W. 4)

# EDUCATION, WALES

## The Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Part 2 of the Education (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act") makes provision in relation to the Education Workforce Council ("the Council").

The Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations") make provision in relation to a number of the Council's functions. These Regulations amend the 2015 Regulations so as to insert a new Part 3A. The new Part 3A provides that school learning support workers must not provide the services set out in that Part 3A unless they meet the specified criteria. The specified criteria includes being registered with the Council in the register it maintains pursuant to section 9 of the 2014 Act (regulation 2(a) and (c) of these Regulations).

Regulation 2(b) of these Regulations amends the 2015 Regulations to clarify that for qualified teachers to be able to carry out the work specified in regulation 17 of the Regulations they must be registered in the school teacher category of registration.

These Regulations further amend the 2015 Regulations so as to insert a new Part 4A. The new Part 4A provides that a further education learning support worker may not provide the services set out in section 16(2) of the 2014 Act unless that person is registered with the Council in the register it maintains pursuant to section 9 of the 2014 Act (regulation 2(d) of these Regulations).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 6 (Cy. 4)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* *6 Ionawr 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *8 Ionawr 2016*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14, 16, 28 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio

**2.** Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3(1)—

(i) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

(**1**) 2014 dccc 5.
(**2**) O.S. 2015/140 (Cy. 8).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 6 (W. 4 )

# EDUCATION, WALES

## The Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

*Made* *6 January 2016*

*Laid before the National Assembly for Wales* *8 January 2016*

*Coming into force* *1 April 2016*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 14, 16, 28 and 47(1) of the Education (Wales) Act 2014(**1**) make the following Regulations:

### Title, commencement and application

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 and they come into force on 1 April 2016.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

### Amendment

**2.** The Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) Regulations 2015(**2**) are amended as follows—

(a) in regulation 3(1)—

(i) in the appropriate place in alphabetical order, insert—

(**1**) 2014 anaw 5.
(**2**) S.I. 2015/140 (W. 8).

"ystyr "athro neu athrawes enwebedig" ("*nominated teacher*") yw person a grybwyllir ym mharagraffau 3, 4, 5, 6 neu 7 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn ac sydd wedi ei enwebu gan y pennaeth pan fo'r pennaeth yn ystyried bod hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau"; a

(ii) yn y diffiniad o "anghymhwysedd proffesiynol difrifol", yn lle "anghymhwysedd ar lefel" rhodder "cymhwysedd ar lefel";

(b) yn rheoliad 16, ar ôl "yn rhinwedd", yn y man cyntaf lle y mae'n digwydd, mewnosoder "rheoliad 18A neu";

(c) yn rheoliad 18, ar ôl "(cofrestr a gynhelir gan y Cyngor)" mewnosoder "yn y categori athro neu athrawes ysgol";

(d) ar ôl Rhan 3 mewnosoder—

## "RHAN 3A

## Y gofyniad i fod yn gofrestredig: gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion

**Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion**

**18A.**—(1) Mae gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn berson sy'n darparu'r gwasanaethau a bennir yn rheoliad 17 ("y gwasanaethau") neu sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau gan athro neu athrawes ysgol.

(2) Ni chaniateir i weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol ddarparu'r gwasanaethau neu gefnogi'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau gan athro neu athrawes ysgol oni bai—

(a) ei fod wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgolion;

(b) ei fod yn darparu'r gwasanaethau gan ryngweithio'n uniongyrchol â dysgwyr i gynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon ysgol neu athrawon enwebedig yn yr ysgol;

(c) ei fod yn darparu'r gwasanaethau o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athrawon ysgol neu athrawon enwebedig yn unol â threfniadau a wneir gan bennaeth yr ysgol; a

(d) bod y pennaeth yn fodlon ei fod yn meddu ar y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad i ddarparu'r gwasanaethau.

""nominated teacher" ("*athro neu athrawes enwebedig*") means a person who is mentioned in paragraphs 3, 4, 5, 6 or 7 of Schedule 3 to these Regulations and who is nominated by the head teacher where the head teacher considers that appropriate in the circumstances"; and

(ii) in the definition of "serious professional incompetence" for "level of incompetence" substitute "level of competence";

(b) in regulation 16 after "by virtue of", in the first place it occurs, insert "regulation 18A or";

(c) in regulation 18 after "(register maintained by the Council)" insert "in the category of school teacher";

(d) after Part 3 insert—

## "PART 3A

## Requirement to be registered: school learning support workers

**School learning support workers**

**18A.**—(1) A school learning support worker is a person who provides the services specified in regulation 17 ("the services") or supports the provision of the services by a school teacher.

(2) A school learning support worker must not provide the services or support the provision of the services by a school teacher unless—

(a) they are registered under section 9 of the 2014 Act (register maintained by the Council) in the category of school learning support worker;

(b) they provide the services with direct interaction with learners to assist or support the work of school teachers or nominated teachers in the school;

(c) they provide the services under the direction and supervision of school teachers or nominated teachers in accordance with arrangements made by the head teacher of the school; and

(d) the head teacher is satisfied that they have the skills, expertise and experience to provide the services.

(3) Wrth benderfynu a oes gan berson y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaethau a bennir ym mharagraff (2)(d) mewn ysgol, rhaid i benaethiaid roi ystyriaeth i—

(a) y safonau ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch, neu'r canllawiau sy'n ymwneud â'r cymwysterau ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru; a

(b) canllawiau ar y materion cytundebol sy'n ymwneud â gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan unrhyw awdurdod lleol neu gyflogwr arall.";

(e) ar ôl Rhan 4 mewnosoder—

## "RHAN 4A

## Y gofyniad i fod yn gofrestredig: gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach

**Y gofyniad i fod yn gofrestredig: gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach**

**19A.** Ni chaniateir i berson ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn adran 16(2) o Ddeddf 2014 oni bai ei fod wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach."; ac

(f) yn Atodlen 3 hepgorer paragraff 8.

(3) In determining whether a person has the skills, expertise and experience required to provide the services specified in paragraph (2)(d) in a school, head teachers must have regard to—

(a) the standards for higher-level teaching assistants, or guidance concerning the qualifications for school learning support workers that may be published from time to time by the Welsh Ministers; and

(b) guidance as to the contractual matters relating to school learning support workers as may be published from time to time by any local authority or other employer.";

(e) after Part 4 insert—

## "Part 4A

## Requirement to be registered: further education learning support workers

**Requirement to be registered: further education learning support workers**

**19A.** A person must not provide the services set out in section 16(2) of the 2014 Act unless they are registered under section 9 of the 2014 Act (register maintained by the Council) in the category of further education learning support worker."; and

(f) in Schedule 3 omit paragraph 8.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

6 Ionawr 2016

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

6 January 2016

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2016 Rhif 6 (Cy. 4)

## 2016 No. 6 (W. 4)

## ADDYSG, CYMRU

## EDUCATION, WALES

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016

The Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

ISBN 978-0-348-11226-9

£6.00

W2525/01/16 ON